

# Pum cam i helpu ecoleg ar safleoedd ein Hysgolion yr 21ain Ganrif...

**1 Darganfyddwch** ba blanhigion ac anifeiliaid sy'n byw ar ein safle, pa rai sydd angen eu hamddiffyn yn fwy yn ystod y gwaith adeiladu a pha fywyd gwyllt arall y gellir ei annog i greu ei gartref yma.

**2 Cynlluniwch** sut i ddiogelu'r coed, yr adar, yr ystlumod a'r ymlusgiaid yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu'r camau hynny.

**3 Crëwch** byllau a gerddi glaw i helpu i gadw'r dŵr yn lân, lleihau'r perygl o lifogydd a darparu cartref a bwyd i fywyd gwyllt. Gadewch bentyrrau anniben o foncyffion i greu mannau cuddio ar gyfer madfallod dŵr ac anifeiliaid eraill.

**4 Crëwch** ardaloedd blodau gwyllt ar gyfer adar, pryfed a mamaliaid bach fel draenogod. Plannwch goed a gwrychoedd ychwanegol fel y gall anifeiliaid deithio rhwng ardaloedd sydd o dan orchudd a gadewch fylchau mewn ffensys ar gyfer draenogod.

**5 Crëwch** ardaloedd i bobl fwynhau'r holl fywyd gwyllt ychwanegol, gan gynnwys lleoedd i eistedd ac ymlacio, i dyfu bwyd, a chymdeithasu. Gallwch gynnwys y disgyblion wrth blannu a gofalu am y cynefinoedd newydd.

